



Croeso i gylchlythyr ein Pwyllgor Archwilio

Rwy'n bwriadu ysgrifennu ein cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith rydym wedi'i gyflawni, y gwaith rydym wedi'i gynllunio a'n canlyniadau. (Ian Arundale, Cadeirydd)



Croeso i gydweithwyr newydd

Newydd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Mynychodd y Cyngorwyr **Susan Goddard** a **Joel Williams** eu cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2019.

Maent eisoes yn cynnig gwerth da drwy eu cyfraniad gweithredol ar y Pwyllgor Archwilio.

Diolchwn i'r Cyngorydd Cowan a'r Cyngorydd Lay am eu hamser gwerthfawr ar y Pwyllgor.

Dechreuodd
Chwefror 2019

Newydd Swyddog Adran 151 (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau)

Mae **Christopher Lee**, swyddog a Chyfarwyddwr adran 151 profiadol o Ronda Cynon Taf, wedi ymgymryd â'r rôl bwysig hon i'r Cyngor o ran rheoli ei faterion ariannol yn gyffredinol.

Rydym yn croesawu Chris i'r rôl hon yn hyderus yn ei sgiliau a'i allu, ac yn anfon ein dymuniadau gorau i Christine Salter, sydd wedi gadael y Cyngor ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth cyson a gwerthfawr.

Dechreuodd Mawrth 2019

Newydd Rheolwr Archwilio

Mae **Chris Pyke** yn darparu adnodd llawn amser i'r tîm archwilio, yn dilyn cyfnod o oruchwyliaeth gan y Pennaeth Cyllid, a hoffwn ddiolch iddo am ei amser a'i ymrwymiad.

Mae'r adnodd pwrpasol hwn wedi ein cefnogi i ddatblygu rhai mentrau yn gynt.

Dechreuodd
Hydref 2018

Ymchwiliadau Rheoli Risg Dwys

Rydym wedi cwblhau **dau adolygiad risg corfforaethol â ffocws** dros y misoedd diwethaf...

Rheoli Risg Seiber-ddiogelwch

Sicrwydd

- Adolygir Aeddfedrwydd Seiber-ddiogelwch yn rheolaidd yn erbyn 10 ffactor risg allweddol yn dilyn y dull gweithredu a argymhellir gan y Ganolfan Seiber-ddiogelwch Genedlaethol (yr NCSC).
- Mae Rheolwyr yn nodi bod angen y sylw mwyaf yn y meysydd canlynol:



Cyfluniad Anniogel - mynediad a newidiadau heb eu hawdurdodi, ymelwa o namau meddalwedd a chyfluniad y system.

Monitro - asesu sut a phryd y mae systemau'n cael eu defnyddio; canfod ac ymateb i ymosodiadau neu weithgarwch damweiniol gan ddefnyddwyr.

Diogelwch Cwmwl Corfforaethol - yr angen am reolaeth dda ar wasanaethau a gynhelir yn allanol.

Canlyniadau

- Cawsom sicrwydd gan y Prif Swyddog digidol ar y rheolaethau a amlinellwyd i reoli risgiau seiber.
- Byddwn yn cadw llygad barcod ar y gofrestr risg gorfforaethol er mwyn monitro'r risg o ran seiber-ddiogelwch.
- Byddwn yn parhau i fonitro'r sicrwydd a roddir gan ein tîm archwilio mewnol.

Nodwch – Mae'n bwysig cwblhau'r modiwlau e-ddysgu seiber sydd ar gael!

Rheoli Perygl Erydu Arfordirol

Sicrwydd

- Fe wnaethom archwilio'r rhaglen rheoli perygl erydu arfordirol i liniaru'r perygl o lifogydd o'r morlin ar hyd Rover Way.
- Fe'n hysbyswyd o'r gwaith lliniaru perygl llifogydd a gynlluniwyd, a bod disgwyl i'r achos busnes llawn gael ei gwblhau o fewn blwyddyn, gyda'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn 2024.
- Dywedwyd wrthym na ragwelir y byddai llifogydd yn digwydd cyn cwblhau'r amddiffynfeydd, ond y gellid, mewn digwyddiad o'r fath, alw am ymateb aml-asiantaeth.

Canlyniadau

Rydym wedi codi'r argymhellion canlynol, ac rydym yn monitro'r cynnydd.

- Adolygu gwydnwch **cynlluniau rheoli digwyddiadau lleol**, a datblygu cynlluniau penodol ar gyfer llifogydd sy'n deillio o'r risg gorfforaethol o erydu arfordirol
- Datblygu **strategaeth ymgysylltu** i gyfathrebu â'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf
- Adrodd ar gynnydd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.



Cydweithio a Datblygu

Rydym wedi elwa o'n ffocws ar **gydweithio a rhwydweithio**

Gweithio gyda chydweithwyr Craffu

- ✓ Rydym wedi elwa ar waith y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ei adolygiad o **brynu Cerbydau Strydlun ar frys**. Fe wnaethant adolygu'r penderfyniad ac ysgrifennu at ein Pwyllgor ar eu canfyddiadau i'n cefnogi i gyflawni ein rolau'n gynhwysfawr ac i osgoi dyblygu.
- ✓ Rydym hefyd wedi gweithio law yn llaw â'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn ein hadolygiad o'r **cynllunio a'r paratoi ar gyfer Brexit**. Ar gyfer ein rôl benodol, wrth adolygu trefniadau rheoli risg, rydym wedi cyfathrebu a derbyn sicrwydd gan yr arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Hefyd yn ymwneud â Brexit...

- Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a gymerodd y **Prif Weithredwr** ddechrau mis Ebrill i fynychu ein Pwyllgor er mwyn darparu amlinelliad o'r prosesau a'r systemau amrywiol sydd ar waith i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit.
- O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, daethom â'n gwahoddiad blynyddol i'r Prif Weithredwr ymlaen er mwyn trafod manylion rheoli risg Brexit. Rydym yn croesawu cyfathrebu parhaus i hysbysu'r rhai sy'n ymwneud â darparu a goruchwyllo'r maes cymhleth a phwysig hwn.

Rhwydweithio a Datblygu

Rwyf wedi bod yn archwilio ffyrdd o rannu arferion da a dysgu gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol eraill. Mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi mynychu sesiynau hyfforddi a datblygu.

Ymweliadau'r Pwyllgor Archwilio	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Rwyf wedi ymweld â Phwyllgor Archwilio Abertawe, ac wedi croesawu'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ein Pwyllgor Archwilio ni. ✓ Rwyf wedi mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn Leeds i drafod ac arsylwi ar eu harferion da.
Digwyddiad Brexit Academi Cymru	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Bûm mewn digwyddiad gyda nifer o gydweithwyr craffu ac archwilio i'n cefnogi i ddarparu gwaith craffu effeithiol o weithgareddau Brexit.
Rhwydwaith y Cadeiryddion	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Rwyf wedi ysgrifennu at 22 Cadeirydd Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol Cymru i sefydlu rhwydwaith. Yn ôl y cyfrif diwethaf, roedd gennym 14 oedd â diddordeb, a byddwn yn bwrw ymlaen â digwyddiad dysgu a datblygu a rennir.
Hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Ym mis Ionawr, perfformiwyd asesiad gonest o'n sgiliau craidd. ✓ Mae hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu i'n cefnogi i fod yn gryf ym mhob un o feysydd craidd ein rôl. Mae hyfforddiant wedi dechrau cael ei ddarparu.

Ein Timau Archwilio ac Ymchwilio Mewnol

Oeddech chi'n gwybod bod gan y Cyngor **Dim Ymchwilio** o fewn Archwilio Mewnol?

Y tîm sy'n arwain y gwaith o atal a chanfod twyll, ac i atgyfnerthu'r pwysigrwydd ein bod ni i gyd yn effro i'r risg o dwyll, **mae strategaeth gwrth-dwyll a llygredd newydd yn cael ei datblygu.**

Byddwn yn clywed mwy ymhen ychydig fisoedd!

Mae'r **Tîm Archwilio Mewnol** hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i atgyfnerthu'r safonau a'r rheolaethau y mae angen i bob un ohonom eu dilyn.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Mae 70% wedi cael eu graddio'n 'effeithiol' ond derbyniodd 6 farn archwilio anfoddhaol.

Er bod barn archwilio anfoddhaol yn eithriad o hyd, rydym yn talu sylw arbennig i fonitro gwelliant ar gyfer yr archwiliadau hyn.

Sicrwydd Archwilio Mewnol yn 2018/19




Opsionau Archwilio	%	<i>Archwiliadau Anfoddhaol</i>
Effeithiol	19%	Gweithdrefnau incwm mewn Ceginau Ysgolion
Effeithiol gyda chyfleoedd ar gyfer gwella	51%	Y Gwasanaeth Cerddoriaeth
Anngonol ac angen gwelliant sylweddol	23%	Ysgol Gynradd Pontprenhau
Anfoddhaol	7%	Contractau Rheoli Gwastraff
Cyfanswm	100%	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr
		Storfa Ffordd Lamby

I wybod mwy am waith a chanfyddiadau'r Timau Archwilio ac Ymchwilio...

Ewch i dudalennau'r Pwyllgor Archwilio ar Wefan y Cyngor – rydym yn derbyn diweddariad ym mhob cyfarfod!

Diweddariad 'Amgylchedd Rheoli' y Cyfarwyddwr

Rydym wedi derbyn 3 diweddariad gan Gyfarwyddwyr ar yr Amgylchedd Rheoli Mewnol yn ystod y 6 mis diwethaf. Mae'r diweddariadau hyn yn ymwneud â **rheoli risg, rheolaethau mewnol a llywodraethu da**.

Cymunedau a Thai				
<p>Heriau</p> <p>Diwygio Lles a Diogelwch Tân yw'r heriau mwyaf, ac rydym wedi cael sicrwydd bod llawer o sylw yn cael ei roi iddynt.</p> <p>Mae risgiau amlwg eraill yn ymwneud â'r angen i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau gan boblogaeth gynyddol gyda llai o adnoddau.</p>	<p>Llywodraethu Da</p> <p><i>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi asesu'r modd y mae'n gweithredu trefniadau llywodraethu da (cryf ac wedi'u hymgorffori) ar 91%</i></p>  <table border="1"><tr><td>13% Wedi ymgorffori</td></tr><tr><td>78% Cryf</td></tr><tr><td>9% Cymysg</td></tr></table>	13% Wedi ymgorffori	78% Cryf	9% Cymysg
13% Wedi ymgorffori				
78% Cryf				
9% Cymysg				
<p>Sicrwydd</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn ymateb yn dda i argymhellion yr archwiliad, a nodwyd bod yr holl argymhellion a nodwyd ar y trywydd iawn ar gyfer eu cyflawni. Mae pob adroddiad archwilio diweddar hefyd wedi darparu lefel effeithiol o sicrwydd.</p>				
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol				
<p>Llywodraethu Da</p>  <table border="1"><tr><td>43% Cryf</td></tr><tr><td>57% Cymysg</td></tr></table> <p><i>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi asesu ei defnydd o lywodraethu da ar 57% cymysg a 43% cryf.</i></p>	43% Cryf	57% Cymysg	<p>Heriau</p> <p>Mae Diogelu yn parhau i fod yn risg gorfforaethol sylweddol, ac mae'r Cyfarwyddwr wedi tynnu sylw at y ffaith bod cymhlethdod achosion diogelu sy'n cael eu trin gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynyddu.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr yn parhau i adrodd ar y risg gorfforaethol o ran Cydymffurfiaeth Gyfreithiol, gydag angen parhaus i gadw gwybodaeth a sgiliau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio, ac i ymateb yn effeithiol i heriau.</p>	
43% Cryf				
57% Cymysg				
<p>Sicrwydd</p> <p>Un o flaenoriaethau allweddol y Gwasanaethau Democrataidd yw ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Trosolwg a Chraffu – yn addas ar gyfer y dyfodol?' Mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â phum Cynnig Gwella.</p>				
Gwasanaethau Cymdeithasol				
<p>Heriau</p> <p>Mae rheoli risg gorfforaethol yn flaenoriaeth allweddol i'r Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Un her barhaus yw'r angen i reoli'r galw yn y Gwasanaethau Plant yn effeithiol, gan ystyried y pwysau ariannol sy'n codi yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.</p> <p>Fe'n hysbyswyd bod strategaethau'n cael eu rhoi ar waith i fodloni'r galw cynyddol gan Wasanaethau Plant a rheoli gorwariant yn y gyllideb.</p> <p><i>Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth am amrywiannau yn y gyllideb a'u rhesymau er mwyn archwilio'r maes pwysig hwn.</i></p>	<p>Llywodraethu Da</p> <p><i>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi asesu ei defnydd o lywodraethu da ar 57% cymysg a 43% cryf.</i></p>  <table border="1"><tr><td>43% Cryf</td></tr><tr><td>57% Cymysg</td></tr></table>	43% Cryf	57% Cymysg	
43% Cryf				
57% Cymysg				
	<p>Sicrwydd</p> <p>Rydym wedi gweld ffocws newydd wrth ymateb i argymhellion Archwilio Mewnol, sy'n gadarnhaol, gan y bu rhywfaint o lithriant hanesyddol yn y maes hwn.</p> <p>Canfu adroddiad AGC diweddar ar gartref plant Crosslands fod pobl ifanc yn derbyn gofal da gan staff cyson a thîm rheoli. Cefnogir pobl ifanc gan dîm o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n defnyddio'r "arwyddion diogelwch" fel y model sy'n sail iddynt.</p>			

Rheolaethau Rheoli Gwastraff

Rheoli Gwastraff

Mae rhai pryderon amlwg ynghylch cadernid rheolaethau mewn perthynas â'r swyddogaeth Rheoli Gwastraff. Cynhaliwyd cyfres o ymchwiliadau i honiadau o dwyll, ac ar ôl i'r materion ddod i ben o fewn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff, **bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer Adolygiadau Ôl-ymchwiliad** er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

Yn y cyfamser, rydym wedi cynyddu amllder ein gwahoddiadau cyfarfodydd i Uwch Swyddogion Rheoli Gwastraff, gan fod mwy o angen gwybodaeth a sicrwydd arnom. Mae'r Rheolwr Archwilio hefyd wedi ymateb gyda lefel uwch o Archwiliadau Mewnol yn cael eu cynnal drwy gydol 2018/19, sydd wedi canolbwyntio ar weithredu systemau, prosesau ac arferion allweddol yn effeithiol i ddiogelu asedau a chyflawni gweithrediadau sy'n cydymffurfio.

Rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud, gan fod dau Archwiliad Mewnol wedi darparu barn archwilio anfoddhaol yn ddiweddar ac mae eraill wedi cydnabod bod angen gwelliant mawr, ond mae'r Uwch Reolwyr wedi ymgysylltu'n dda â ni a'n Tîm Archwilio Mewnol. Maent wedi bod yn agored gyda'r Tîm Archwilio Mewnol ar y meysydd lle mae ganddynt yr angen mwyaf am sicrwydd, cyngor a chefnogaeth, a byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar y gwaith o gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

Amdanom ni a'n Gwaith

Llywodraethu

Rheolaeth Fewnol

Cyllid

Rheoli Risg

Rydym yn Annibynnol

Rydym yn cynnwys pedwar aelod lleyg annibynnol ac wyth Cyngorydd (nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet)

- ✓ Rydym yn adolygu rheolaethau llywodraethu a mewnol
- ✓ Rydym yn adolygu adroddiadau Ariannol, rheolaeth a gwerth am arian
- ✓ Rydym yn adolygu Rheoli Risg

Rydym yn derbyn ac yn trafod adroddiadau a diweddariadau gan ystod o Reolwyr, y Timau Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol.

*Os ydych am wybod **mwy am ein rôl a'n gwaith**, ewch at wefan y Cyngor*

<http://cardiff.moderngov.co.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=137&LLL=1>

Ym mis Mehefin, **rydym yn edrych ymlaen at y canlynol:**

- Cwrdd â'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Adolygu'r Datganiad Cyfrifon Drafft
- Adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor